

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cofnodion y Cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd 21 Gorffennaf, 2020

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd) Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr John Griffith, G.O.Jones, R.Llewelyn Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Roberts. Aelod Lleyg: Mr Dilwyn Evans
WRTH LAW:	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Risg ac Archwilio Mewnol (MP) Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitem 4) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Richard Griffiths
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd), Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio - Cyllid), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio – Archwilio Cymru), Y Prif Weithredwr, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Prif Archwiliwr (NRW), Uwch-archwiliwr (BJ), Pennaeth y Gwasanaeth Democraataidd, Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac, yn dilyn hynny, gwnaed cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriad.

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd datganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd 11 Chwefror, 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o'r cofnodion –

Gofynnodd y Pwyllgor pa bryd y byddai adroddiad Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor ar gael. Roedd hwn yn un o 22 asesiad o'r fath o awdurdodau lleol yng Nghymru a gynhelid gan Archwilio Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y derbyniwyd drafft cyntaf yr adroddiad er mwyn dilysu'r ffeithiau ddiwedd mis Ionawr / dechrau mis Chwefror ac yna derbyniwyd ail fersiwn wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed tua diwedd mis Mawrth, 2020 ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud. Wedi hynny, fe'i rhoddwyd i'r naill ochr wrth i'r Cyngor symud i ymateb i argyfwng pandemig Covid-19 oedd yn dod i'r amlwg. Cadarnhaodd y Swyddog fod

yr ail ddrafft wedi'i glirio i'w dderbyn yr wythnos diwethaf ac y rhagwelwyd y câi'r adroddiad ffurfiol ei gyhoeddi'n derfynol yn y dyfodol agos. O ran sylwedd, daeth digwyddiadau ar warthau'r adroddiad, oedd yn fwy ymgynghorol ei natur ac yn cymharu arfer a dull awdurdodau lleol a newidiodd y sefyllfa'n sylweddol ers cyhoeddi'r fersiwn ddrafft. Un o'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â Chyngor Ynys Môn oedd lefel ei gronfeydd wrth gefn ariannol, yr oedd disgwyl iddi ar y pryd ostwng ymhellach ond a oedd, ers hynny, wedi gwella, fel y mae'r Datganiad Cyfrifon yn tystio iddo. Yn ogystal, nodwyd diffyg incwm masnachol y Cyngor, er y cydnabuwyd bod y cyfleoedd oedd ar gael i'r Cyngor i greu incwm o'r fath yn gyfyngedig o gymharu â chynghorau mwy mewn ardaloedd trefol. Dywedodd y Swyddog, o gofio'r sefyllfa yr oedd cynghorau bellach yn eu cael eu hunain ynnddi, gallai'r ffaith nad oedd Cyngor yn Ynys Môn yn ddibynnol ar incwm masnachol am ei les ariannol fod yn fantais, gan fod y ffrydiau incwm hynny wedi lleihau'n fawr yn sgil argyfwng Covid -19. Fodd bynnag, roedd yn debygol y byddai pandemig Covid-19 yn cael effaith ariannol ar y Cyngor gan gynnwys colli incwm.

3. ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 15 yn ymgorffori'r Adolygiad ar Reoli'r Trysorlys am 2019/20, i'r Pwyllgor ei ystyried. Rhoes yr adolygiad grynodedig o weithgareddau trysorlys y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 gan gynnwys ei ddull o fenthycu a buddsoddi.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 15 sylw at yr isod –

- Y cyd-destun allanol a'r ffactorau ehangach oedd wedi dylanwadu ar benderfyniadau o ran rheoli'r trysorlys, gan gynnwys cyflwr economi'r Deyrnas Unedig; perfformiad cyfradd llog yn ystod y flwyddyn; yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit - yn enwedig Brexit heb gytundeb - ac effaith Covid-19.
- Roedd y ffactorau mewnol fel a ganlyn:
 - **Perfformiad gwariant cyfalaf** - roedd y tabl yn 3.1 yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut yr ariannwyd hyn. Roedd gwariant cyfalaf gwirioneddol y Gronfa Gyffredinol a ariannwyd trwy fenthycu yn £2m yn erbyn rhagamcan o £7m ar ddechrau'r flwyddyn. Y prif reswm am y tanwariant oedd y tanwariant mawr ar y prosiectau fel y'u rhestrwyd ac, yn benodol, y £4.547m a danwariwyd ar raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gafodd ei ohirio yn sgil rhagor o ymgynghori ar y cynlluniau yn ardal Llangedfni.
 - **Cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod** - roedd balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau referniw a chyfalaf ac arian y llif arian. Nodwyd adnoddau arian craidd y Cyngor yn y tabl yn 3.2 yr adroddiad ac roeddynt yn cynnwys Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor a gynyddodd o £5.912m ar 31 Mawrth, 2019 i £7.060m ar 31 Mawrth, 2020. Cyfanswm cronfeydd wrth gefn a darpariaethau defnyddiadwy'r Cyngor oedd £31.124m ar 31 Mawrth, 2020 (o'i gymharu â £ 30.078m ar 31 Mawrth, 2019).
 - **Benthyciadau a gymerodd y Cyngor** - ym mis Mawrth, 2020, cymerodd y Cyngor un benthyciad tymor byr gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i ariannu gwariant cyfalaf a gynlluniwyd hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar 18 Mawrth, 2020, cymerodd y Cyngor fenthyciad o £10m (heb ei gynllunio ar ddechrau'r flwyddyn) gyda chyfradd llog o 2.05% i sicrhau bod ganddo ddigon o arian parod yn y banc yn mynd i mewn i argyfwng Covid 19, yn wyneb yr ansicrwydd ynghylch y cyfnod hwnnw.
 - **Benthycia gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)** – roedd y benthyciad gros o £139.2m ar 31 Mawrth, 2020, yn uwch na'r GCC ar 31 Mawrth, 2019 ond roedd o fewn y GCC a ragwelwyd am y ddwy flynedd ganlynol (cyfeirir at hyn yn nhabl 3.3.1). Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn wedi rhagori ar y GCC oherwydd y benthyciad o £10m a gymerwyd ym mis Mawrth, 2020. Hefyd, roedd y pandemig byd-eang wedi golygu bod gwariant cyfalaf ym mis olaf y flwyddyn yn llai na'r disgwyl

gan arwain at fenthyciad allanol oedd yn fwy na'r CGG. Roedd hyn am y tymor byr gan y byddai lefel y benthycia allanol yn syrthio'n is na'r CGG yn 2020/21, wrth i fenthyciadau allanol gael eu had-dalu a mynd i wariant cyfalaf.

- **Benthycia mewnlol** - ar ddechrau'r flwyddyn, £6.2m oedd y sefyllfa fenthycia fewnlol lle'r oedd y Cyngor yn defnyddio'i gronfeydd arian wrth gefn ei hun i ariannu gwariant cyfalaf. Trwy gymryd benthyciad newydd gwerth £10m y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, gostyngwyd y sefyllfa fenthycia fewnlol ar 31 Mawrth, 2020 a, thrwy hynny, roi'r Cyngor mewn sefyllfa lle'r oedd ganddo ormod o arian y CGG, a olygodd bod ganddo £2.3m o fenthycia cyfalaf nad oedd wedi'i ddefnyddio.
- **Benthyciadau eraill** - ni chymerodd y Cyngor unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log gan Lywodraeth Cymru o £1.878m yn ystod 2019/20 i ariannu gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a byddid yn ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol.
- **Ad-daliadau dyledion** - aeddfedodd benthyciad am £5m gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ar 20 Mai, 2019.
- **Buddsoddiadau** - roedd gweithgaredd buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth gymeradwy a roddai ddiogelwch cyfalaf yn gyntaf, yna hylifedd ac yna arenillion. Câ'r rhan fwyaf o adneuo'n y Cyngor eu dal mewn cyfrifon adneuo dim rhybudd, tra bod dau fenthyciad i awdurdodau lleol eraill. Y strategaeth ar fuddsoddi arian dros ben fyddai benthyciadau tymor byr gydag awdurdodau lleol eraill fel ffordd ddiogel o sicrhau'r enillion mwyaf.
- Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys – roedd dadansoddiad o'r gwahaniaeth rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd am 2019/20, fel y'u cymeradwywyd yn y Datganiad Strategaeth ar Reoli'r Trysorlys am 2019/20, i'w weld yn adran 6 yr adroddiad. Roedd y data allweddol ar gyfer dangosyddion darbodus a gwirioneddol y trysorlys, oedd yn manylu ar effaith gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, wedi'u cynnwys yn y tabl yn 6.1 yr adroddiad. Yn ystod 2019/20 cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoliadol.
- Roedd perfformiad rheoli trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o risg isel, enillion isel ar fuddsoddiadau a dull cynlluniedig o ran benthycia i leihau taliadau llog. Roedd perfformiad yn erbyn y strategaeth yn ystyried ffactorau economaidd allanol ac fe'i hadolygid yn rheolaidd i sicrhau mai'r strategaeth oedd yr un fwyaf priodol o hyd.
- Wrth symud ymlaen i 2020/21, roedd cryn ansicrwydd ynghylch sut y byddai effaith ariannol pandemig Covid-19 yn datblygu dros amser. Roedd y Cyngor wedi ceisio cadw balansau ei arian parod ar lefel weddol uchel o rhwng £45m a £55m yn ystod yr argyfwng. Roedd wedi derbyn cyllid y Grant Cyllid Ardrethi (RSG) ymlaen llaw ac wedi parhau i gasglu Treth Gyngor gan y rhai oedd yn gallu talu, gan olygu bod ei lif arian mewn sefyllfa iach. Byddid nawr yn rhoi ystyriaeth i ba enillion y gellid eu cael o fuddsoddi unrhyw arian dros ben wrth sicrhau diogelwch y cyfalaf a fuddsoddiwyd.

Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor, eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ymhellach –

- O ran pwysigrwydd buddsoddi mewn busnes i roi anogaeth i bobl ac i nodi ein bod wedi troi cornel mewn perthynas â'r pandemig, wrth i'r wlad symud ymlaen i'r cyfnod adfer, byddai gan sefydliadau, yn cynnwys llywodraeth leol, rôl hanfodol yn cyflawni dyheadau a chynlluniau gwariant y Llywodraeth ar gyfer prosiectau seilwaith i roi hwb i'r economi ar ôl cyfnod y cyfyngiadau symud. Roedd, hefyd, yn debygol y byddai grantiau ychwanegol a gwariant cyfalaf ar gael yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- O ran priodoldeb y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus fel prif ffynhonnell cyllid y Cyngor, o gofio bod ei gyfradd gyfartalog yn 4.5% o'i chymharu â Chyfradd gyfartalog y Banc ar 0.1%, roedd y gyfradd gyfartalog yn seiliedig ar holl fenthyciadau'r Cyngor oedd yn ddyledus dros nifer o flynyddoedd, yn dyddio'n ôl i gyfnod pan oedd cyfraddau llog yn

sylweddol uwch. Roedd y gyfradd gyfredol ar gyfer benthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus oddeutu 2.2% ac fe'i codwyd 1% yn hwyr y llynedd. Nid oedd y Cyngor wedi cymryd benthyciad, ac eithrio'r £10m gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ym mis Mawrth oedd ar sail tymor byr hyd at fis Mawrth, 2021. Pe byddai'r Cyngor yn dymuno cymryd benthyciad tymor hir, yna byddai'n ymgynghori â'i Gynghorwyr Trysorlys i sefydlu ai'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus oedd yr opsiwn gorau dan yr amgylchiadau hynny.

- O ran bod y Cyngor mewn sefyllfa fwy manteisiol oherwydd nad oedd yn ddibynol ar incwm masnachol am ei iechyd ariannol, roedd cyfleoedd y Cyngor am fuddsoddiad masnachol yn llai na'r rhai ar gyfer cynghorau trefol. Fodd bynnag, roedd cynghorau oedd wedi buddsoddi'n helaeth mewn adeiladau masnachol fel theatrau, datblygiadau manwerthu a meysydd awyr ac oedd yn dibynnu arnynt am incwm, bellach yn debygol o fod yn wynebu mwy o galedi oherwydd bod yr incwm o'r ffynonellau hynny wedi lleihau'n sylweddol, gan eu bod wedi peidio â gweithredu yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Er bod Ynys Môn wedi gweld colli incwm oherwydd yr argyfwng, roedd hyn i raddau llai na chyfran y cynghorau mwy yng Nghymru a châi hyn ei gynnwys yn rhannol gan ei gyfran o'r £78m yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo i ddigolledu cynghorau am yr incwm a gollwyd.
- O ran casglu'r Dreth Gyngor, roedd y gyfradd casglu 1.5% yn is ym mis Mai, 2020 o'i chymharu â'r gyfradd am fis Mai, 2019, oherwydd bod trethdalwyr yn cael gohirio talu taliad rhandaliad cyntaf y Dreth Gyngor rhwng Mai a Mehefin eleni ac oherwydd nad oedd y Cyngor wedi gweithredu unrhyw gamau adfer hyd yn hyn. At hyn, roedd costau uwch Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor wrth i nifer yr hawlwyd godi. Nid oedd yn debygol y teimlid gwir effaith y pandemig ar refeniw'r Dreth Gyngor hyd nes y rhoddid ystyriaeth i ddileu dyledion.

Penderfynwyd –

- **Nodi y bydd y ffigurau alldro yn yr adroddiad yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod gwaith archwilio Datganiad Cyfrifon 2019/20 wedi'i gwblhau a'i lofnodi. Byddir yn nodi, fel y bo'n briodol, unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad.**
- **Nodi dangosyddion darbodus dros dro a rhai'r trysorlys am 2019/20 yn yr adroddiad.**
- **Derbyn adroddiad yr Adolygiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys am 2019/20, a'i argymhell i'r Pwyllgor Gwaith heb wneud sylw.**

4. DATGANIAD DRAFFT Y CYFRIFON A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2019/2020

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 oedd yn ymgorffori Datganiad cyn-archwiliad drafft y Cyfrifon am flwyddyn ariannol 2019/20 ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu drafft am 2019/20, i'r Pwyllgor eu hystyried.

Cyn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon drafft, diolchodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i dîm Cyfrifon y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith yn cwblhau'r cyfrifon drafft yn llwyddiannus, yn unol â'r dyddiad cau statudol a ddygwyd ymlaen, ers y llynedd, i'r 15^{fed} o Fehefin. Roedd tasg eleni yn arbennig o anodd oherwydd amgylchiadau gyda mwyafrif y staff yn gweithio o bell o'u cartrefi oherwydd y pandemig, yn ogystal â chyfrannu at ymateb argyfwng Covid-19. Roedd y Datganiad Cyfrifon wedi'i baratoi a'i nodi yn unol â rheoliadau ac arferion cyfrifyddu ac fe'i cynhyrchied yn flynyddol i roi gwybodaeth am gyllid y Cyngor a sut roedd yn gwario arian cyhoeddus i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartion eraill â diddordeb. Roedd y Datganiad yn ddogfen hir a chymhleth, yn nodi gwybodaeth am berfformiad ariannol y Cyngor mewn ffordd a ragnodid

gan reoliadau cyfrifyddu ac, er gwaethaf tynnu sylw CIPFA at y ffaith bod angen ei symleiddio, roedd y fformat wedi aros yr un fath â'r llynedd.

Cyfeiriodd y Swyddog at yr Adroddiad Naratif Esboniadol a gyflwynai wybodaeth gefndirol am Gyngor Sir Ynys Môn a gosod ei berfformiad ariannol yng nghyd-destun cyflawniadau, materion, heriau a risgiau allweddol y flwyddyn. Yn 2019/20, nododd y Cyngor danwariant o £0.308k yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd o £135.210m (cyllideb net) a chyflawnodd £2.205m o arbedion. Roedd y tabl yn 3.4.1 yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2019/20 ac incwm a gwariant gwirioneddol yn ei herbryn. Golygodd effaith y tanwariant bod y Cyngor wedi cynyddu ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol o £0.308k i £7.060m sef 4.9% o'i gyllideb refeniw net am 2020/21. Tanwariodd y Gyllideb Gyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chyfanswm y gwariant yn £30.015m yn erbyn cyfanswm y Gyllideb Gyfalaf o £43.907m ar gyfer 2019/20. Mae'r prif ddatganiadau ariannol dilynol yn cynnwys yr isod –

- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (tudalen 21 y cyfrifon) - yn dangos cost darparu gwasanaethau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn, yn unol ag arferion cyfrifyddu yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant, a dyna pam y ffigur - gwarged o £ 28.161m. Roedd y swm y gellid ei godi ar y dreth gyngor yn gofyn am nifer o addasiadau a eglurid yn Nodyn 1a (Nodyn ar Ddadansoddiad Gwariant a Chyllid 2019/20) a Nodyn 7 (Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu dan reoliadau). Roedd CIES hefyd yn dangos enillion neu golledion o ran asedau a rhwymedigaethau'r awdurdod, gan gynnwys atebolrwydd pensiwn a newidiadau o ganlyniad i ailbriso asedau.
- Crynodeb o'r Symudiadau yng Nghronfeydd wrth Gefn y Cyngor (tudalen 23 y cyfrifon) – oedd yn dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn oedd gan y Cyngor ac a ddadansoddiwyd rhwng cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio ac na ellid eu defnyddio. Roedd Balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn £7.06m ar ddiwedd y flwyddyn; Balans y Gronfa Wrth Gefn oedd wedi'i Glustnodi oedd £8.76m; Balans y Cyfrif Refeniw Tai oedd £8.697m; £1.33m oedd y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf a £197k oedd y Balansau Ysgol. Ar 31 Mawrth, 2020, roedd cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio £1.1m yn uwch na chyfanswm y flwyddyn flaenorol, sef £25.944m.
- Y Fantolen (Tudalen 24 y cyfrifon) - yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau (yr hyn yr oedd y Cyngor yn berchen arno a'r hyn oedd yn ddyledus ganddo, ac eithrio priffyrdd a phontydd) yr oedd y Cyngor yn ei gydnabod ar ddyddiad y Fantolen, sef 31 Mawrth, 2020. Roedd y Fantolen yn adlewyrchu sefyllfa ariannol dda ar ddiwedd y flwyddyn gan roi gwerth net o £190.618m i'r Cyngor, oedd yn gynydd o £28.162m ar y flwyddyn flaenorol. Roedd y Fantolen hefyd yn cynnwys y ffigur ar gyfer atebolrwydd pensiwn oedd yn atebolrwydd yr oedd yr Awdurdod wedi'i ysgwyddo ac y byddai'n rhaid ei ariannu yn y tymor hir, er nad oedd yn dod allan o gyllideb y flwyddyn honno.
- Y Datganiad Llif Arian – oedd yn dangos y newidiadau yn arian parod y Cyngor a'r hyn oedd gyfwerth ag arian parod y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, wedi'i rannu'n weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu.
- Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol craidd - roeddynt yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ac yn egluro'r ffigurau yn y prif ddatganiadau ariannol. Yr hyn oedd â'r budd mwyaf i'r trethdalwr oedd Nodyn 8 - cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a'u pwrpas; Nodyn 9 - safle balansau'r ysgol; Nodyn 15 - asedau nad oeddynt yn gyfredol - eiddo, peiriannau ac offer; Nodyn 16 - ymrwymadau cyfalaf sylweddol; Nodyn 17 - asedau treftadaeth; Nodyn 24 - Dyledwyr; Nodyn 26 - Credydwyr; Nodyn 27 - Darpariaethau; Nodyn 33 - Lwfansau aelodau; Nodyn 34 - Tâl swyddogion; Nodyn 41- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; Nodyn 48 – Y Dreth Gyngor a Nodyn 49 - Trethi Annomestig.
- Datganiad Llywodraethu Blynnyddol – roedd yn rhoi trosolwg o'r fframwaith llywodraethu oedd wedi bod ar waith yn y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth, 2020, ynghyd â chrynodeb o adroddiadau ac adolygiadau a roes sylwadau ar faterion llywodraethu a pherfformiad yn ymwneud â'r Cyngor.

Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft oedd ar ddiwedd y datganiadau ariannol ac eglurodd fod y Datganiad yn ddogfen statudol a'i bwrpas oedd dangos bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd a chefnogol a gynhwysid o fewn Fframwaith CIPFA / SOLACE ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Nod y Cyngor oedd cyflawni safonau llywodraethu da trwy lynu wrth y saith egwyddor graidd yn Fframwaith CIPFA / SOLACE. Roedd tystiolaeth bod y Cyngor wedi llwyddo i lynu wrth yr egwyddorion hynny ac roedd hyn, yn ei dro, yn rhoi sicrwydd o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Serch hynny, roedd y Datganiad yn nodi meysydd lle gellid gwneud gwelliannau yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i welliant parhaus - yn eu plith, llunio cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd ac ailgwmpasu cyfeiriad strategol y Cyngor am y 18 mis nesaf. Roedd, hefyd, yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynnydd a wnaed ar faterion llywodraethu a nodwyd yn 2018/19. Dylid nodi y daeth yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol am 2019/20 i'r casgliad nad oedd unrhyw faterion o risg nac effaith sylweddol uchel oedd yn cyfiawnhau eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Wrth drafod y datganiadau ariannol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, cododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn –

- Hyd a lled effaith yr adolygiad o strwythur budd-daliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar y Cyngor yn wyneb dyfarniad McCloud a ddyfarnodd fod gwarchodaeth oedd yn berthnasol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, fel rhan o waith diwygio'r sector cyhoeddus, yn anghyfreithlon oherwydd ei bod yn gwahaniaethu ar sail oedran.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 gefndir y dyfarniad ar achos a gyflwynwyd gan aelod o'r Gwasanaeth Diffoddwyr Tân ar y sail bod gwarchodaeth, a gyflwynir gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth hwnnw i aelodau dros oedran penodol a gymerodd ymddeoliad cynnar, yn anghyfreithlon oherwydd ei bod yn gwahaniaethu ar sail oedran. Rhoddir gwarchodaeth debyg gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i aelodau cymwys o'r cynllun dan y rheol 85 mlynedd. Yno, roedd buddion pobl oedd yn ymddeol yn gynnar ac oedd yn dibynnu ar pryd y dechreuont eu gwasanaeth, neu'r cyfan o'r buddion, yn cael eu gwarchod rhag gostyngiadau. Câi effaith dyfarniad McCloud ei deimlo mewn rhwymedigaethau pensiwn uwch oherwydd efallai y byddai'n rhaid i'r Gronfa Bensiwn ymestyn y warchodaeth i nifer fwy o aelodau. Rhoes Hymans Robertson LLP, fel Ymgynghorwyr Actiwaraid Cronfa Bensiwn Gwynedd, ystyriaeth i'r dyfarniad wrth iddynt ailbriso'r Gronfa yn 2019 - ailbrisiad yr oedd cyfraddau cyfraniadau pob cyflogwr Cronfa Bensiwn Gwynedd o 1 Ebrill, 2020 yn seiliedig arno. Barn yr Actiwari oedd na fyddai effaith y dyfarniad ar ddiffyg cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gymaint â'r hyn a ragwelwyd gan ei fod wedi'i ystyried yn eu hasesiad ac, at hyn, ni fyddai angen cyfraniadau uwch gan y cyflogwyr. Cynhelid adolygiad yn ystod ailbrisiad teirblwydd nesaf y Gronfa yn 2022 ac er y byddai rhywfaint o effaith ar ddiffyg y Gronfa Bensiwn, roedd hyn yn debygol o gael mwy o effaith ar y cyflogwyr hynny yn y Gronfa yr oedd eu staff yn iau.

- A fydd gorfod cau ysgolion oherwydd y pandemig yn cael effaith ar sefyllfa balansau ysgolion ac a yw'n arwain at leihau cyfraniad y Cyngor i CBAC, o gofio nad oes unrhyw arholiadau wedi'u cynnal.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod balansau ysgolion wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i sefyllfa ariannol y Cyngor a thynhau cyllidebau, er bod elfen o ddiogelwch rhag toriadau cyllidebol wedi'i rhoi i ysgolion. Yn gyffredinol, roedd y sector cynradd mewn gwell sefyllfa ariannol na'r sector uwchradd lle'r oedd dwy ysgol mewn diffyg - fel oedd yn ofynnol, roedd yr ysgolion hynny wedi llunio cynlluniau i wyrddroi'r diffyg. Roedd yn debyg bod y ffaith bod ysgolion wedi cau wedi helpu eu cyllid gan nad oedd yr Awdurdod wedi dal unrhyw ran o'r cyllid

datganoledig i ysgolion yn ôl oherwydd eu cau. Nid oedd ysgolion, 'chwaith, wedi ysgwyddo costau oedd yn gysylltiedig ag arholiadau, fel y byddent wedi'i wneud pe byddent wedi bod ar agor, yn ôl yr arfer, yn ystod tymor yr haf. Dywedodd y Swyddog nad oedd yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau ynghylch y CBAC na'r disgwyliadau o ran awdurdodau lleol mewn perthynas ag ef.

- A ddylid adolygu'r tanwariant cylchol ar y gyllideb gyfalaf o ran ei effaith ar reoli'r trysorlys.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y rhan fwyaf o gynghorau'n tanwario ar eu rhaglenni cyfalaf oherwydd, gyda phrosiectau cyfalaf mawr, gallai materion godi naill ai cyn dechrau gweithredu cynlluniau a all gael effaith ar amserlen eu cwblhau neu yn ystod eu gweithredu. Yn achos y Cyngor, roedd y tanwariant ar raglen gyfalaf 2019/20 i'w briodoli i raddau helaeth i'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith i ailystyried y rhaglen moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni a, thrwy hynny, ohirio'r cynlluniau a gynlluniwyd ar gyfer yr ardal. Sicrhawyd y cyllid ar gyfer y prosiectau hynny yr oedd eu hamserlen wedi llithro a byddai'r cyllid yn cario drosodd gyda nhw i 2020 / 21. Gyda'r rhaglen gyfalaf yn tanwario, yr effaith ar reoli'r trysorlys oedd benthyca llai a olygai, yn ei dro, bod y gost i'r gyllideb refeniw o wasanaethu'r ddyled trwy'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn llai.

- Lefel y gwariant a dynnwyd gan y Cyngor wrth ymrwymo i bartneriaeth ar ffatri newydd ailgylchu gwastraff Parc Adfer a Chynnig Twf y Gogledd ac a yw'r Cyngor yn cael gwerth ei arian o fod yn cymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod cyfleuster Parc Adfer wedi'i adeiladu dan bartneriaeth rhwng pum awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys Ynys Môn, gyda chefnogaeth cyllid Llywodraeth Cymru. Câi ei redeg gan gwmni preifat. Roedd y pum awdurdod lleol oedd yn bartneriaid yn talu ffi giât am y tuneldd yr oedd y cyfleuster yn cael gwared â hi ac, i ddechrau, roedd y ffi yn uwch i Ynys Môn na'r ffi a dalwyd dan y contract gwaredu gwastraff blaenorol. Unwaith y byddai'r gwaith wedi'i sefydlu ac yn gweithredu wrth fodd Llywodraeth Cymru, byddai'r Llywodraeth yn talu grant i'r cwmni a redai'r safle a byddai'r ffi giât yn gostwng i lefel is na chostau blaenorol y Cyngor a, thrwy hynny, yn creu arbedion refeniw i'r Cyngor. Roedd Cais Twf y Gogledd yn dal i fynd rhagddo o ran y gwaith sefydlu gyda'r partneriaid dan sylw. Roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi cyllid o £120m dros y 15 mlynedd, gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi arian cyfatebol tuag ato. Ceid cyfraniadau gan y sector preifat hefyd. Gan y câi'r cyllid ei dalu mewn rhandaliadau dros y 15 mlynedd a bod gwariant y prosiect yn debygol o ddigwydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf, yna efallai y byddai'n rhaid i'r partneriaid lleol dalu cost gychwynol benthyca i ariannu'r costau cychwyn, er bod trafodaethau ar hyn yn parhau. Ar hyn o bryd, câi cost rhedeg Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ei ariannu gan y partneriaid, yn cynnwys yr awdurdodau lleol, y Brifysgol a cholegau gyda phob partner yn cyfrannu £50k. Byddai'r trefniadau cyllido tymor hir a sut y caent eu rhannu yn rhan o'r cytundeb terfynol rhwng y partneriaid.

- P'run a ellid gwneud y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn haws ei ddarllen ac a ellid egluro'r mesurau a ddefnyddir gan y Cyngor i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu a'r ffynonellau oedd yn llywio'r casgliad sicrwydd ar gyfer pob egwyddor yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 gan y nodwyd nad oedd y Datganiad yn annhebyg, o ran cynnwys, i Ddatganiad y flwyddyn flaenorol.

Esboniodd y Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod y gwaith ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20 wedi'i wneud ar adeg pan oedd aelodau o'r

tîm, oedd yn gyfrifol am y dasg, hefyd yn cymryd rhan yn ymateb Covid-19, gan olygu bod gwaith drafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ysgafnach na'r arfer. Yn 2012, mabwysiodd y Cyngor Gôd Llywodraethu Lleol a ddefnyddid fel sail i adolygu'r gwaith llywodraethu'n flynyddol o ran sicrhau y câi gofynion CIPFA eu bodloni a, hefyd, fel sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol oedd yn deillio o hynny. Mewn ymateb i sylw am wella'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rhoes y Swyddog sicrwydd bod y Cyngor bob amser yn ceisio gwella ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, o ran cyflwyniad a pha mor hawdd oedd ei ddeall.

Cododd yr Is-gadeirydd fater y sesiynau briffio misol i aelodau y cyfeiriwyd atynt yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac a gynhaliwyd i hysbysu aelodau etholedig am ddatblygiadau, strategaethau a chynigion cyllidebol mawr a gofynnodd am i Aelodau Lleyg y Pwyllgor gael gwahoddiad i'r sesiynau hyn i'w helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mawr yn y Cyngor. Dywedodd y Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y byddai'n cyfeirio'r mater i'r Prif Weithredwr / yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth ei ystyried.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynwyd nodi'r prif ddatganiadau ariannol nad oedd wedi'u harchwilio ar gyfer 2019/20.

CAMAU YCHWANEGOL A GYNIGIR:

- **Cyflwyno'r Cod Llywodraethu Lleol i'r Pwyllgor maes o law cyn iddo gael ei adolygu a'i ddiweddarau.**
- **Bod y Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn gofyn i'r Prif Weithredwr / yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth ystyried priodoldeb gwahodd dau Aelod Lleyg y Pwyllgor i'r sesiynau briffio misol i bob aelod ar ddatblygiadau mawr.**

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 i'r Pwyllgor ei ystyried. Amlinellodd yr adroddiad y gwaith Archwilio Mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth, 2020 ac, yn seiliedig ar hyn, rhoes y Pennaeth Archwilio a Risg ei barn gyffredinol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu a gwaith trin a rheoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd, hefyd, yn llywio Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Pennaeth Archwilio Ynys Môn h.y. y Pennaeth Archwilio a Risg, am y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth, 2020, o'r farn bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol i reoli risg, llywodraethu a rheoli'n fewnol. Er nad oedd y Pennaeth Archwilio a Risg yn credu bod yna unrhyw feysydd oedd yn peri pryder sylweddol, roedd angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau y câi amcanion eu cyflawni, a chât'r rhain eu monitro. Nid oedd amodau i'r farn hon.

Dywedodd y Swyddog y daethpwyd i'r farn uchod yn seiliedig ar y gwaith a'r gweithgareddau a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn, yn benodol gan gyfeirio at yr isod –

- Yn ystod 2019/20, adolygodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol 50% o'r risgiau yn y gofrestr risg gorfforaethol gyda sgôr risg weddilliol goch neu ambr (83% dros gyfnod treigl o 17 mis) (cyfeirir at hyn yn Atodiad A) a gallai roi sicrwydd Rhesymol bod y Cyngor i bob pwrpas yn rheoli pob un ond un o'r risgiau a adolygwyd. Daeth yr adolygiad o Wydnwch TG i ben tua diwedd 2019/20 gan roi sgôr sicrwydd Cyfyngedig ac roedd yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth wedi rhoi sylw i hyn.

- O'r cyfanswm o 21 archwiliad a gwblhawyd yn ystod 2019/20, dyfarnwyd sicrwydd sylweddol i chwech am y trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gyda dim risg / mater arwyddocaol na pherthnasol wedi'u nodi o gymharu â thri achos yn 2018/19. Yn sgil tri ar ddeg o adolygiadau, cafwyd sgôr sicrwydd rhesymol (14 yn 2018/19). Fel yn y flwyddyn flaenorol, cafwyd dau archwiliad sgôr sicrwydd Cyfyngedig. Roedd dau adroddiad yn parhau i fod â sicrwydd cyfyngedig ar ôl gwaith dilyn i fyny a byddent yn parhau i gael eu hadolygu i fonitro gweithrediad y risgiau a godwyd.
- Ni dderbyniodd unrhyw archwiliadau "Dim" sicrwydd ac ni chodwyd unrhyw faterion / risgiau Critigol (coch) yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw faterion / risgiau coch yn disgwyl sylw.
- Lle'r oedd Archwilio Mewnol wedi nodi materion / risgiau, roedd y Rheolwyr wedi'u derbyn i gyd.
- Yn ystod 2019/20, canfu Archwilio Mewnol fod uwch-reolwyr yn y Cyngor yn gefnogol o'r materion a godwyd ac yn ymatebol iddynt.
- Ni ystyriwyd bod unrhyw faterion o risg nac effaith sylweddol uchel i gyfiawnhau eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

O ran perfformiad, roedd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol raglen sicrhau ansawdd a gwella yn ei le i sicrhau gwelliant parhaus. Roedd y Gwasanaeth wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel rhan o'r Strategaeth ar gyfer 2019/20 (Atodiad D) gyda thri allan o bum dangosydd yn cwrdd â'r targedau neu'n rhagori arnynt. Nid oedd y gwasanaeth wedi perfformio cystal o ran canran y risgiau gweddilliol coch ac ambr a adolygwyd nac o ran nifer y staff, gyda gweld colli staff unwaith eto yn y flwyddyn oherwydd dyrchafiad, secondiad ac absenoldeb tymor hir. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi meincnodi ei berfformiad yn erbyn 22 aelod o Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (er mai dim ond 19 oedd yn cymryd rhan) ac er na wnaethant elwa o ran arbedion maint, gydag Ynys Môn yn awdurdod bach yn seiliedig ar boblogaeth, daeth y gwasanaeth i'r brig o ran perfformiad yn ystod y chwarter am gwblhau archwiliadau o fewn amser a gynlluniwyd ac am foddhad cleientiaid. Rhoes asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ym mis Mawrth 2017 sicrwydd bod y Gwasanaeth "yn cydymffurfio'n gyffredinol" â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, sef yr asesiad uchaf oedd ar gael i'r asesydd.

Wrth symud ymlaen, roedd profiad y llynedd yn ogystal â'r profiad a gafwyd yn ystod yr ymateb brys i Covid-19 wedi rhoi addysg werthfawr ac, ynghyd â dau aelod newydd o staff, meddalwedd rheoli risg newydd a meddalwedd olrhain gweithredu wedi'i uwchraddio, byddai'n rhoi'r tîm Archwilio Mewnol mewn sefyllfa dda i sicrhau y câi ei gynllun ei gyflawni ac i barhau i gefnogi'r Cyngor fel rhan allweddol o'i strwythur llywodraethu.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a thrafod y materion a ganlyn –

- Eglurder pellach ar y mesurau perfformiad a nodwyd yn Atodiad D yr adroddiad oedd yn cymharu perfformiad yn erbyn targedau ac wedi'u meincnodi â Phrif Grŵp Archwilwyr Cymru a oedd, i'r Pwyllgor, yn ymddangos yn uchel ac nid yn adlewyrchu perfformiad gwirioneddol o fewn y cyfnod o ddeuddeng mis.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg mai'r archwiliadau a gwblhawyd o fewn amser a gynlluniwyd oedd y rhai oedd wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen a ddyrannwyd iddynt, h.y. 100% yn 2019/20. Roedd targedau uwch - y cytunwyd arnynt ym mis Chwefror, 2020 - wedi'u gosod ar gyfer 2020/21 ond roedd y rhain bellach yn debygol o fod yn afrealistig ac o'r gwerth lleiaf posibl yn wyneb yr amgylchiadau newidiol yr oedd Covid-19 wedi'u creu. Fodd bynnag, er na chyflawnodd y Gwasanaeth ei darged o archwilio 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr ar y gofrestr risg gorfforaethol o fewn y cyfnod deuddeg mis o 2019/20, cyflawnodd 83% dros yr amserlen hwy o 18 mis o Dachwedd, 2018 i Ebrill, 2020. Trwy hynny, rhoes sicrwydd i'r Pwyllgor fod y prif feysydd risg wedi'u

cynnwys. Dywedwyd wrth y Pwyllgor ymhellach fod 86% wedi'u harchwilio bellach gyda dim ond dau o'r meysydd risg gweddilliol coch / ambr yn parhau heb eu harchwilio.

Mewn ymateb i gwestiwn arall ynghylch digonolrwydd ei lefelau staffio, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod hanner y tîm Archwilio Mewnol wedi cael ei symud i ymateb brys Covid-19 gan olygu bod dau allan o bum aelod y tîm ar hyn o bryd yn gwneud gwaith archwilio, tra bod yr ymateb i argyfwng Covid-19 yn parhau i fod yn fyw. Roedd y ddwy swydd amser llawn a hysbysebwyd yn gynharach yn y flwyddyn wedi'u llenwi'n rhan-amser gydag un penodai wedi cychwyn yn ei swydd ym mis Mehefin a'r llall i fod i ddechrau ym mis Awst. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y staff, roedd y gwaith yr oedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i wneud eleni wedi bod yn sylweddol ac wedi golygu cynnal adolygiad o ymateb y Cyngor i argyfwng Covid-19, yn cynnwys canfod oedd y trefniadau oedd ganddo ar waith ar gyfer llywodraethu, darparu TG, casglu tystiolaeth a dadansoddi data, ac ymgysylltu a chydweithio yn ddiogel, yn gadarn, yn effeithiol ac yn addas at y diben. Roedd y gwaith hwn hefyd wedi dangos bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn hyblyg ac yn gallu addasu i newid ei gynlluniau a chanolbwyntio mewn ymateb i'r amgylchedd risg oedd yn newid. Wrth symud ymlaen, byddai'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth uniongyrchol, fel y cytunwyd gyda'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, a allai olygu oedi agweddau eraill ar waith e.e. hunanasesiad y Pwyllgor Archwilio.

- A oedd yr amgylchedd gwaith newydd lle'r oedd mwyafrif staff y Cyngor yn gweithio o'u cartref, yn ogystal â llai o staff, yn debygol o gael effaith ar allu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gyflawni ei gynlluniau.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad oedd gweithio o gartref yn brofiad newydd i'r tîm Archwilio Mewnol nac yn fater o ran cynhyrchu gwaith ac nad oedd yn cael effaith ar y ffordd yr oedd aelodau'r tîm yn gwneud eu gwaith, gan nad oedd yn anodd cynnal archwiliad fel hyn o ran rhannu dogfennau. Mewn perthynas â gweithio mewn tîm, roedd gweithio o bell wedi arwain at gyfathrebu effeithiol gan ddefnyddio technoleg a chynhaliwyd cyfarfodydd tîm yn amlach fel hyn. Roedd Archwilio Mewnol a Rheoli Risg wedi ffynnu, yn enwedig o ganlyniad i'r gwaith uchod a wnaed mewn perthynas â'r tîm ymateb brys. At hyn, y gwasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod hwn oedd yr unig wasanaeth Archwilio Mewnol yn genedlaethol i gynnal adolygiad o'r fath hyd yma. O ganlyniad i hyn, roedd CIPFA wedi gofyn i'r Awdurdod gyflwyno astudiaeth achos i'w rhannu â thimau archwilio mewnol eraill.

- Yr adolygiad archwilio o wytnwch TG a arweiniodd at roi sicrwydd Cyfyngedig ac a oedd y sefyllfa wedi gwella ers hynny ac a oedd, fel mater cysylltiedig, yn gallu cefnogi'r ffyrdd newydd o weithio yr oedd yr argyfwng wedi'u creu gan systemau TG yr Awdurdod wrth symud ymlaen.

Wrth gadarnhau bod llawer iawn o waith wedi'i wneud ers hynny, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y sicrwydd cyfyngedig yn berthnasol i strwythur y tîm TG gyda rhai rolau allweddol yn dibynnu ar un aelod o staff ac, felly, yn cynyddu natur fregus y gwasanaeth pe bai'r staff a weithredai'r rolau hynny yn gadael neu'n absennol. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn bellach a rhoddwyd trefniadau ategol yn eu lle. Câi adolygiad dilynol ei gynnal ym mis Medi. Yn ogystal, fel rhan o'i adolygiad o'r trefniadau oedd ar waith gan yr Awdurdod i ymateb i argyfwng Covid-19, edrychodd Archwilio Mewnol ar wytnwch TG, gan gynnwys lled band y rhyngwyd a'r gallu i gael mynediad o bell. Canfu bod y ddarpariaeth TG yn effeithiol yng nghyd-destun yr ymateb brys.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch yr amserlen ar gyfer adolygu YM32 - y risg na fyddai'r Cyngor yn gallu sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol mewn cyfleusterau hamdden i gynnal lefel bresennol y ddarpariaeth, eglurodd y Pennaeth

Archwilio a Risg nad oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i adolygu'r risg, er y byddai'r risg yn aros ar y gofrestr.

- P'run a oedd cael materion heb eu datrys o 2014 yn adlewyrchu'n wael ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod ac a oedd modd ymdrin â'r rhain yn brydlon neu eu gadael.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y tri mater / tair risg oedd yn weddill o 2014 yn ymwneud â Rheoli System a gwahanu Dyletswyddau o fewn y Gyflogres. Roedd gwaith ailstrwythuro parhaus y tîm cyflogres bellach wedi'i gwblhau gyda'r canlyniad bod dau o'r tri mater oedd heb eu datrys wedi'u cymeradwyo. Roedd y trydydd yn parhau i fod yn destun trafodaeth.

Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 a nodi bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn fodlon â digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol ar yr amod y câi rheolaethau mewnol eu cyflwyno a / neu eu gwella mewn rhai meysydd.

NI CHYNGIWIYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL

6. ARCHWILIO ALLANOL – CYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2020

Cyflwynwyd yr adroddiad Archwilio Allanol yn ymgorffori'r Cynllun Archwilio arfaethedig ar gyfer blwyddyn archwilio 2019/20, i'r Pwyllgor ei ystyried. Nodai'r Cynllun y gwaith y bwriadwyd ei wneud mewn perthynas â'r archwiliad ariannol a materion yn ymwneud ag ef, ynghyd ag amlinelliad o'r rhaglen archwilio perfformiad ac amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith archwilio allanol yn yr Awdurdod, ac adrodd arno. Ynghlwm wrth y Cynllun drafft roedd dau lythyr atodol - un dyddiedig Ebrill, 2020 oedd yn amlinellu materion posib o ran y cyfrifon a'r broses archwilio ariannol a'r amserlen o ganlyniad i argyfwng Covid 19 a'r llall, dyddiedig Mehefin, 2020, a roddai'r sefyllfa ddiweddaraf o ran rhaglen waith archwilio perfformiad ar gyfer 2020/21 a'r amserlen yn sgil Covid-19.

Cyfeiriodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio at –

- Asesu'r risgiau archwilio ariannol fel y'u nodwyd yn Arddangosyn 1 y Cynllun drafft ac eglurodd fod y risgiau a amlinellwyd ynddo yn gyffredin i bob corff cyhoeddus a gâi ei archwilio. Ar adeg ysgrifennu'r Cynllun drafft, roedd y Cynllun yn rhagweld y gallai argyfwng cenedlaethol Covid-19 arwain at oedi sylweddol wrth baratoi a chyhoeddi cyfrifon a dyna pam iddo gael ei gynnwys fel risg. Roedd y sefyllfa wedi dod yn gliriach yn y cyfnod ers hynny, gyda'r Awdurdod yn llwyddo i gwblhau'r cyfrifon drafft mewn pryd. Roedd yr archwiliad ariannol bellach yn ei drydedd wythnos ac yn mynd rhagddo gan olygu na wireddwyd y risg o ran oedi cyn cyhoeddi'r cyfrifon drafft yn achos Ynys Môn. O ran meysydd eraill y rhoes archwilio sylw iddynt, byddai'r archwilwyr yn adolygu effaith dyfarniad McCloud mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn.
- Y rhaglen waith archwilio perfformiad a chadarnhau y câi'r archwiliad a gynlluniwyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a ganolbwyntiai ar y thema "atal" ei ohirio gydag adolygiad o drefniadau adfer lleol a rhanbarthol yn cymryd ei le. Roedd Archwilio Allanol hefyd yn bwriadu trafod gyda'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a oedd y darn gwaith ar gynllunio a chyflawni arbedion yn un yr oedd yn credu a fyddai o fudd i'r Cyngor neu a fyddai'n fwy cynhyrchiol cyfeirio'r sylw i gyfeiriad arall. Roedd yr adroddiad ar asesu cynaliadwyedd ariannol y Cyngor bellach wedi'i gwblhau a châi ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi. Er bod amgylchiadau wedi newid yn sylweddol ers comisiynu'r adroddiad, roedd yn cynnwys egwyddorion cyffredinol pwysig ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr awdurdod lleol.

Wrth dderbyn yr adroddiad, nododd y Pwyllgor yr anghysondeb rhwng y ffigur £427k yng nghyfrifon drafft 2019/20 ar gyfer ffioedd oedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffigur gwirioneddol o £362k yng Nghynllun Archwilio drafft yr Archwiliad Allanol a gofyn am eglurhad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y byddai'n holi Mr Alan Hughes am yr amrywiant ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Penderfynwyd nodi a derbyn Cynllun Archwilio Drafft yr Archwiliad Allanol am flwyddyn archwilio 2019/20.

CAM YCHWANEGOL - Bod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn adrodd yn ôl er mwyn egluro'r anghysondeb rhwng y ffigur ar gyfer ffioedd archwilio a ddangosir yng nghyfrifon 2019/20 a'r ffigur a ddangosir yn y Cynllun Archwilio drafft.

**Y Cynghorydd Peter Rogers
Cadeirydd**

DRAFT